

Ni yw OneDigital

Hyrwyddo cynhwysiad digidol

Yn y Deyrnas Unedig mae 11.9 miliwn oedolyn heb y sgiliau digidol angenrheidiol i elwa o'r byd arlein, boed hynny wrth geisio cael gwaith, cadw mewn cysylltiad neu reoli arian.¹

Mae ein partneriaid yn arbenigo mewn cynnal projectau cynhwysiad digidol wrth rannu dysgu a gwybodaeth. Wrth gydweithio fel hyn byddwn yn cael mwy o effaith ar sgiliau digidol pobl ar gyfer bywyd a gwaith, ynghyd â'u hyder a symbyliad i fynd arlein.

Rydym wedi derbyn tair blynedd o gyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol tan fis Mai 2020 er mwyn darparu cymorth sgiliau digidol wrth recriwtio Hyrwyddwyr Digidol.

¹Lloyds Consumer Digital Index 2019


CYRRAEDD MWY O BOBL

Ers dechrau yn 2015 rydym wedi hyfforddi dros 3,300 Hyrwyddwr Digidol ac wedi helpu bron 44,500 person i ddysgu sgiliau digidol newydd:

ALLWEDD

Hyd at Mai 2018

Mehefin 2018 i Mai 2019



“One Digital wedi darparu cymorth sgiliau digidol safon uchel ar gyfer pobl a chyrrff ar draws y wlad dros y 12 mis diwethaf. Mae datblygu ein Cymuned Arferion yn hwyluso rhannu dysgu ar draws y bartneriaeth a chydweithredu â'n partneriaid mewn amryw sectorau, gan sicrhau bydd ein gwaith yn cael effaith eang.”

Alison Ingram, Rheolwraig Rhaglen, One Digital

Gweithio ble mae angen sgiliau

Gweithio gydag elusennau, llyfrgelloedd a chyrrff gydag arbenigedd mewn meysydd fel tai, gwaith, pobl hŷn, gofal cymdeithasol a chymunedau lleol.

Gweithio ar draws y wlad

Mae projectau One Digital ar hyd a lled y Deyrnas Unedig, o Wynedd yn y gorllewin i sir Caint yn y dwyrain ac o Ynysoedd Erch oddi ar arfordir yr Alban i Brighton yn y de.

Clic yma i weld lleoliad ein hyrwyddwyr digidol.

GWNEUD GWAHANIAETH GYDA'N GILYDD

“Un o'n nodau allweddol yw cymell mwy o drigolion i ddysgu sgiliau digidol er mwyn bod yn rhan o'r farchnad waith. Mae cysylltiad clir rhwng cyflogaeth a sgiliau digidol. Bydd gwella'r sgiliau hynny yn fodd i gynyddu lefelau cyflogaeth ar draws y sir.”

Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd, Cyngor Gwynedd

“Roeddwn wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar y ffôn, ond heb ei ddefnyddio i lenwi ffurflenni, chwilio am waith neu gofrestru ar wefannau. Mae'r cyngor a chymorth wedi bod o help mawr i mi ac erbyn hyn rwy'n fwy hyderus wrth wneud pethau arlein.”

Carwyn, Dysgwr

“Rwyf wedi dysgu llawer wrth wirfoddoli i fod yn Hyrwyddwr Digidol, yn arbennig wrth gefnogi pobl gydag anghenion ychwanegol. Mae'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Digidol yn wych a byddaf yn ei ddefnyddio i baratoi gweithdai digidol yn y dyfodol.”

Helen, Hyrwyddwr Digidol

“Mae'n llawer haws defnyddio'r gliniadur a chadw mewn cysylltiad â ffrindiau ar Skype!”

Ken, Dysgwr

“Profiad newydd sbon rwy'n mwynhau'n fawr. Mae trosglwyddo gwybodaeth i eraill yn grêt ac mae'n dda cyfarfod pobl newydd.”

Jack, Hyrwyddwr Digidol

RHANNU DYSGU A GWYBODAETH

Byddwn yn dysgu gydol yr amser. Drwy ein Cymuned Arferion byddwn yn rhannu gwybodaeth er gwella ein gwaith. Manylion pellach ar ein **Both Gwybodaeth**.

Eleni, mae ein gwaith wedi cynnwys:

- **Gwella** arferion partneriaid wrth ddarparu cymorth sgiliau digidol hanfodol
- **Gweithio'n effeithiol** gyda Hyrwyddwyr Digidol
- **Mesur effaith** projectau cynhwysiad digidol
- **Deall** sut i weithio gyda grwpiau dan anfantais

Clic yma i weld mwy am waith dysgu eleni

CYDWEITHREDU


Eleni, newidiwyd y ffocws i ffwrdd o rannu dysgu rhwng partneriaid yn fewnol. Yn gyntaf, wrth rannu arferion da rhwng grŵp o bartneriaid ehangach ac yn ail sefydlu both gwybodaeth er hwyluso rhannu rhwng partneriaid.

Cynnal digwyddiad “Making digital accessible for everyone” gyda chymorth BT, gan ganolbwyntio ar ddysgu o brofiad 21 partner sy'n gwyaf tebygol o ddirodd eithrio digidol.

Cydweithredu â'r Centre for Ageing Better er deall gwaith i gefnogi sgiliau digidol pobl hŷn yn well.

Rhannu ein profiad o weithio gyda meddygfeydd teulu ac Age UK wedi datblygu **pecyn adnoddau** ar gyfer gweithio mewn meddygfeydd.

Ni yw One Digital



Clic ar bob logo am fanylion pellach

CYSYLLTU Â NI

Am wybod mwy?

@OneDigitalProg

onedigitaluk.com

info@onedigitaluk.com

